

# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Addasiadau I Gefnogi Annibyniaeth - Taflen Wybodaeth



## ADDASIADAU I GEFNOGI ANNIBYNIAETH - TAFLEN WYBODAETH

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

YN YMWNEUD Â	Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol
RHIF CYFEIRNOD	LL13
ADRAN	Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
AWDUR	Paula Curtis
DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF	Mehefin 2023
DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF	Mehefin 2025

## Cynnwys

ADDASIADAU I GEFNOGI ANNIBYNIAETH .....	4
ASESIAD .....	4
GRANTIAU .....	4
Gwaith preifat.....	5
CYNNAL A CHADW A RHOI GWASANAETH .....	5
CYMORTH A CHYNGOR.....	5
Gwybodaeth Llywodraeth Cymru Ar-lein .....	6
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL .....	7
CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU .....	8

## ADDASIADAU I GEFNOGI ANNIBYNIAETH

Nod addasiadau i gartrefi pobl yw eu cefnogi nhw i barhau i fod mor annibynnol â phosibl ac i gyflawni eu ‘galwedigaethau’ dyddiol, fel gofalu amdanyn nhw eu hunain, symud o gwmpas yn eu cartrefi a mynd allan i’r gymuned i wneud y pethau sy’n bwysig iddynt.

Mae cynllun ‘Hwyluso’ Llywodraeth Cymru yn ffordd i bobl gael rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, ni waeth a ydyn nhw’n byw yn eu cartref eu hunain neu’n rhentu’n breifat neu drwy’r cyngor neu gymdeithas tai.

Maen nhw’n categoriiddio’r addasiadau yn rhai ‘bach’ sy’n cynnwys canllawiau gafael a chanllawiau grisiau; ‘canolig’, er enghraifft liffiau grisiau ac ystafelloedd ymolchi ar lefel gwastad ac addasiadau ‘mwy’ a allai gynnwys rheoliadau cynllunio ac adeiladu i’w cyflawni.

Gellir cael rhai addasiadau bach, fel canllawiau gafael, yn uniongyrchol drwy gysylltu â’ch landlord drwy’r cynllun hwn (gwybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<http://gov.wales/docs/desh/publications/170407-enable-key-facts-en.pdf>

## ASESIAD

Mae gan Therapyddion Galwedigaethol a Swyddogion Anableddau sy’n cael eu cyflogi gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint y sgiliau i gyflawni asesiadau a gwneud argymhellion am y math o newidiadau a fyddai’n eich cefnogi chi, eich teulu neu’ch gofalwyr i fod yn rhan o’ch bywyd bob dydd.

Mewn rhai achosion, mae’n bosib y bydd argymhellion yn cyfeirio at osod canllawiau gafael syml sy’n rhoi hyder a thawelwch meddwl i rywun, a gallai fod yn rhywbeth y byddai pobl yn fodlon ei ariannu eu hunain ar ôl cael cyngor a’r wybodaeth gywir.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn rhan o’r asesiad, bydd agweddau eraill yn cael eu trafod a allai arwain at gyflawni canlyniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i ffordd o fyw, defnyddio gwahanol dechnegau a/neu gyfarpar, neu pan fyddai gwaith yn sylweddol, ystyried y manteision o symud i rywle mwy addas.

## GRANTIAU

O ran addasiadau ar raddfa fwy, mae Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl sydd fel arfer ar gyfer unigolion sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain neu’n rhentu yn y sector preifat.

Mae'n grant yn seiliedig ar brawf modd yn bennaf ar gyfer gwaith dros £1000 (Ffoniwch 01352 703434 i gael ragor o wybodaeth) ac mae angen argymhelliad gan y Therapydd Galwedigaethol.

Mae'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl yn swm hyd at £36,000 yn dibynnu ar y cais sy’n cael ei wneud ac o ran unrhyw gais sydd dros y swm hwn, gellir gwneud cais am fenthyciad dewisol. Yn achos plant, nid ydyn nhw’n destun prawf modd ar gyfer y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl

ond byddai angen iddyn nhw fodloni'r mein prawf o hyd yn dilyn asesiad. Ni all gefnogi gwaith sydd wedi'i wneud eisoes gan bobl ag anabledd.

Mae unigolion sy'n byw mewn eiddo cymdeithasau tai yn gallu gwneud cais am grantiau, a chael argymhelliad gan therapydd galwedigaethol unwaith eto, trwy eu cymdeithas tai (Grant Addasiadau Ffisegol) sydd weithiau'n effeithio ar daliadau rhent i dalu costau cynnal a chadw. Mewn eiddo'r cyngor, mae cyllideb wedi'i neilltuo i wneud y gwaith hwn.

Mae'n bwysig cofio, foddy bynnag, beth bynnag fo'r argymhelliad therapi galwedigaethol, mater i'r landlord yw cytuno i wneud addasiadau a bydd yn ystyried ceisiadau yn unol â'r defnydd gorau o'i stoc dai ar gyfer y preswylwyr i gyd.

### Gwaith preifat

I'r unigolion sy'n dymuno gwneud gwaith preifat, cysylltwch â Gofal a Thrwsio, elusen i'r henoed a phobl anabl (01352 758700) sydd ag amrywiaeth o gonitoriau cymeradwy a'u tîm eu hunain sy'n gallu cefnogi.

Hyd yn oed dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i gael arweiniad ac asesiad i sicrhau bod camgymeriadau costus yn cael eu hosgoi.

## CYNNAL A CHADW A RHOI GWASANAETH

Mae'n bwysig nodi fod yn rhaid cynnal a chadw a rhoi gwasanaeth rheolaidd i rywfaint o'r offer sy'n cael eu gosod drwy'r grantiau hyn er mwyn sicrhau eu bod nhw'n parhau i weithio'n dda. Os ydych chi'n byw yn eich eiddo eich hun, mae'n debygol mai chi fydd yn gyfrifol am hyn pan fydd y warant wedi dod i ben, felly trafodwch hyn cyn i'r gwaith gael ei wneud os gwellwch yn dda fel y gellir rhoi cynllun ar waith.

Mewn lleter cyngor neu gymdeithas tai, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r systemau sydd ar waith. Cysylltwch â'ch tîm tai os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

## CYMORTH A CHYNGOR

Os ydych chi'n ystyried gwneud addasiadau, cysylltwch â:

### Un Pwynt Mynediad



03000 858 858

Gwasanaethau Cymdeithasol, Preswylfa,

Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1PZ

E-bost: [sboa@flintshire.gov.uk](mailto:sboa@flintshire.gov.uk)

## Gwybodaeth Llywodraeth Cymru Ar-lein

### **Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl**

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/disabled-facilities-grant/?lang=en>

### **Grant Addasiadau Ffisegol**

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/physical-adaptations/?lang=en>

### **Benthyciadau gwella cartrefi (nad yw'n benodol i anabledd)**

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/grants-and-funding/home-improvement-loans/?lang=en>

### **Hwyluso**

<http://gov.wales/docs/desh/publications/170407-enable-key-facts-en.pdf>

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

<b>Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint</b>	
08444 772020	<a href="https://flintshirecab.org.uk/cy/">https://flintshirecab.org.uk/cy/</a>
<b>Gofal a Thrwsio Sir y Fflint</b>	
Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed.	
01352 758700	<a href="http://www.flintshirecr.co.uk">www.flintshirecr.co.uk</a>
<b>Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru</b>	
08450 549969	<a href="https://ageconnectsnewales.org.uk/?lang=cy">https://ageconnectsnewales.org.uk/?lang=cy</a>
<b>Llinell Gymorth Mencap Cymru</b>	
0808 808 1111	<a href="https://wales.mencap.org.uk/cy">https://wales.mencap.org.uk/cy</a>
<b>MIND</b>	
01352 757637	<a href="https://www.newmind.org.uk/">https://www.newmind.org.uk/</a>
<b>Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)</b>	
01352 752525	<a href="http://www.carers.org/local/wales/flintshire">www.carers.org/local/wales/flintshire</a>
<b>Fforwm Anabledd Sir y Fflint</b>	
01352 755546	
<b>Y Gwasanaethau Cymdeithasol</b>	
Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ	
03000 858 858	<a href="mailto:SSDUTY@flintshire.gov.uk">SSDUTY@flintshire.gov.uk</a> <a href="https://www.siryfflnt.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/">https://www.siryfflnt.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/</a>

## CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion rydym yn ymwybodol y gallai fod yna adegau pan fo angen i chi wneud cwyn. Gellir gwneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion  
Y Gwasanaethau Cymdeithasol  
Neuadd y Sir,  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint, CH7 6NN                  01352 702623

E-bost: [myview@flintshire.gov.uk](mailto:myview@flintshire.gov.uk)

Mae taflen ‘Eich hawl i ganmol a chwyno’ sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein yma:  
<https://www.siryfflnt.gov.uk/cy/Resident/Social-Services/Social-Services-Information-Leaflets-Welsh.aspx>

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein yma:  
[www.dewis.cymru](http://www.dewis.cymru)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for a version.

**Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras ar gais drwy ffonio 03000 858 858.**